OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1429 (Cy.148) (C.64)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - 4 Mehefin 2008

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 181 a 188(3) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2006.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**); ac

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf 2006 ac at Atodlenni iddi.

Y Diwrnodau penodedig

3.—(1) Daw darpariaethau Deddf 2006 a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin 2008 o ran Cymru.

(2) Daw'r darpariaethau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin 2008.

(3) Daw'r darpariaethau a bennir yn Rhan 3 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2008 o ran Cymru.

(**1**) 2006 p.40.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) 1998 p. 31.

Arbed y Codau Ymarfer cyfredol

4.—(1) Er bod adran 40 o Ddeddf 2006 a'r diwygiadau y mae'r adran honno yn ei wneud i adran 84 o Ddeddf 1998 wedi dod i rym, mae Cod Ymarfer Derbyniadau i Ysgolion(**4**) ac adran 84 o Ddeddf 1998 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol mewn perthynas â'r Cod hwnnw i barhau mewn grym tan y dyddiad a benodir gan Weinidogion Cymru i ddwyn i rym god ar gyfer derbyniadau i ysgolion i ddisodli'r Cod hwnnw.

(2) Er bod adran 40 o Ddeddf 2006 a'r diwygiadau y mae'r adran honno yn ei wneud i adran 84 o Ddeddf 1998 wedi dod i rym, mae Cod Ymarfer Apelau Derbyniadau i Ysgolion (**5**) ac adran 84 o Ddeddf 1998 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol mewn perthynas â'r Cod hwnnw i barhau mewn grym —

(a) tan y dyddiad a benodir gan Weinidogion Cymru i ddwyn i rym god ar gyfer apelau derbyniadau i ysgolion i ddisodli'r Cod hwnnw, a

(b) o ran unrhyw apêl a wnaed o dan adran 94 o Ddeddf 1998 lle y mae hysbysiad o apêl wedi cael ei roi cyn y dyddiad a benodir gan Weinidogion Cymru i ddwyn i rym god ar gyfer apelau derbyniadau i ysgolion i ddisodli'r Cod hwnnw.

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

4 Mehefin 2008

(**4**) Daeth y Cod Ymarfer Derbyniadau i Ysgolion i rym ar 1 Ebrill 1999, isbn – 07504 23331.
(**5**) Daeth y Cod Ymarfer Apelau Derbyniadau i Ysgolion i rym ar 1 Medi 1999, isbn – 07504 23528.

YR ATODLEN Erthygl 3

RHAN 1

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Mehefin 2008 o ran Cymru

Y Ddarpariaeth	*Y Pwnc*
Adran 1	Dyletswyddau o ran safonau uchel a chyflawni potensial
Adran 37(1) a (2)(1)(a)	Staff mewn ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol gyda chymeriad crefyddol
Adran 39	Cyfyngiad cyffredinol ar ddethol ar sail gallu
Adran 43	Dyletswydd corff llywodraethu i weithredu penderfyniadau ynghylch derbyniadau
Adran 44	Gwahardd cyfweliadau
Adran 45	Trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion gyda chymeriad crefyddol; ymgynghori a gwrthwynebiadau
Adran 47	Gwrthwynebiadau i drefniadau derbyn
Adran 53	Ysgolion gyda threfniadau cyn 1998 ar gyfer dethol ar sail gallu neu ddawn
Adran 166	Trefniadau cydweithredu:— ysgolion a gynhelir a chyrff addysg bellach
Adran 184 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 18 isod	Diddymu
Yn Atodlen 18, yn Rhan 6 diddymu— Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 5, adran 58(4) yn adran 89, yn is-adran (2), y gair " and" ar ddiwedd paragraff (c), adran 90(6), (7) a (10) adran 99(1)	Diddymu

RHAN 2

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 30 Mehefin 2008

Y Ddarpariaeth	*Y Pwnc*
Adran 156	Tynnu ymaith ddyletswydd Arolygiaeth Gweinyddu Llysoedd Ei Mawrhydi i arolygu perfformiad o swyddogaethau Gweinidogion Cymru ynghylch achosion teulu
Adran 175	Diwygiadau amrywiol yn ymwneud â Chymru